# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-04-07(p.9)

### Dyddiad: Dydd Iau 1 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Gweithredu Fformiwla Townsend

#### Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am faterion yn ymwneud ?weithredu fformiwla anghenion uniongyrchol Townsend.

#### Argymhelliad

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

#### Y Cefndir

3. Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2006, bu'r Pwyllgor yn trafod hynt y gwaith o weithredu fformiwla Townsend yng nghyd-destun craffu ar y gyllideb. Roedd hyn yn dilyn sesiwn manylach o graffu ar fformiwla Townsend ym mis Ebrill 2006. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad pellach ar hynt y gwaith o adolygu'r fformiwla ac o'i gweithredu.

#### Adolygu'r Fformiwla

4. Roedd y data ar yr Arolwg newydd o Iechyd Cymru ar gael am y tro cyntaf yn yr hydref 2005. Pan ddefnyddwyd y data hwn i ddiweddaru'r fformiwla anghenion uniongyrchol, cafodd effaith sylweddol ar sefyllfa berthnasol nifer o fyrddau iechyd lleol. Gofynnais am sicrwydd fod y data newydd hwn yn gadarn o ran dyrannu adnoddau ar lefel BILl cyn iddo gael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o weithredu fformiwla Townsend ymhellach.

5. Roedd y Grp Arbenigol, a ffurfiwyd i gynghori ar gynnal a datblygu'r fformiwla, wedi comisiynu adolygiad gan Brifysgol Efrog i brofi'r data newydd hwn. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, bu'r Grp yn ystyried y gwaith hwnnw, ynghyd ?waith a wnaed gan Wasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd i brofi dilysrwydd cyffredinol y model. O ganlyniad, mae'r Grp wedi argymell bod angen addasu'r fformiwla i adlewyrchu'r gwahaniaethau yn nifrifoldeb cyflyrau iechyd rhwng ardaloedd nad yw'r model a geir yn nata Arolwg Iechyd Cymru yn ymdrin yn ddigonol ?wy. Mae Prifysgol Efrog yn ymgymryd ? gwaith hwn ar hyn o bryd, a bydd y Grp Arbenigol yn ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf yn y gwanwyn.

## Hynt y Gwaith o Weithredu Dyraniadau Refeniw'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2007-08

6. Soniais wrth y Pwyllgor ym mis Tachwedd y byddwn yn ystyried ymgymryd ?esur interim ar gyfer dyraniadau'r byrddau iechyd lleol ar gyfer 2007-08 er mwyn sicrhau nad oedd oedi yn y gwaith o'u gweithredu tra oedd yr adolygiad yn cael ei gynnal. Er fod y data newydd wedi achosi newid mawr yn y sefyllfa ar lefel y byrddau iechyd lleol, roedd llai o newid ar lefel ranbarthol, fel y mae'r tabl isod yn dangos.

## Cyfrannau Anghenion Uniongyrchol (Townsend) fesul Rhanbarth

| | Cyfrannau'n seiliedig ar Arolwg Iechyd Cymru 1998<br><br>% | Cyfrannau'n seiliedig ar Arolwg Iechyd Cymru 2003-05<br><br>% |
|---|---|---|
| Y De Ddwyrain | 43.81 | 42.81 |
| Y Canolbarth a’r Gorllewin | 33.86 | 34.89 |
| Y Gogledd | 22.33 | 22.30 |
| Cyfanswm | 100 | 100 |

7. Penderfynais felly y dylid dosbarthu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol yn 2007-08 rhwng y rhanbarthau ar sail cyfrannau Townsend ar lefel ranbarthol, ac wedyn o fewn y rhanbarthau ar sail cyfrannau'r dyraniadau cyfredol. O ran y cynnydd o 3.5% yn y cyllid a ddyrannwyd i wasanaethau ysbytai ac iechyd y gymuned, cafodd BILlau'r Canolbarth a'r Gorllewin 3.6%, dyrannwyd 3.5% i fyrddau'r De-orllewin a 3.3% i fyrddau yn y Gogledd.

8. Yn sgil addasu'r dyraniad ar gyfer 2007-08, mae'r pellter rhwng y targed ar lefel ranbarthol fel a ganlyn:

- y De-ddwyrain - 0.7% dros y targed
- y Canolbarth a'r Gorllewin – 2.7% o dan y targed
- y Gogledd – 2.8% dros y targed.

## Cyllidebau presgripsiynu

9. Mae'r addasiadau a nodir uchod wedi'u gwneud wrth ddyrannu cyllid i Wasanaethau Ysbytai ac

Iechyd y Gymuned. Yn sgil yr argymhellion a wnaed yn adroddiad terfynol yr Athro Townsend, mae grp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar sut i weithredu'r gyllideb presgripsiynu gofal sylfaenol drwy'r dull anghenion uniongyrchol. Disgwylir i'r grp hwn gyflwyno'i ganfyddiadau i'r Grp Arbenigol yn yr haf, a gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid dechrau gweithredu'r fformiwla yng nghyd-destun dyraniadau refeniw'r byrddau iechyd lleol ar gyfer 2008-09.

## Them?Trawsbynciol

10. Nod fformiwla anghenion uniongyrchol Townsend yw lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy dargedu'r cyllid gofal iechyd at yr ardaloedd hynny sydd ? anghenion mwyaf o ran iechyd. Ceir tystiolaeth gref o gysylltiad rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac iechyd gwael. Oherwydd hynny, dylai targedu cyllid gofal iechyd at yr ardaloedd sydd ? anghenion mwyaf o ran iechyd hefyd fod o fudd i'r ardaloedd hynny sydd ?efelau uwch o amddifadedd.

## Y Goblygiadau Ariannol

11. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r papur hwn. Mae goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig ? gwaith o weithredu'r fformiwla anghenion uniongyrchol yn barhaus. Ymdrinnir ? rhain drwy Gylch Cynllunio'r Gyllideb ac wrth ddyrannu cyllid i'r byrddau iechyd lleol.

## Camau i'w cymryd

12. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Cyswllt:

Jeff Buggle, Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, 3137